

17 - Bangor i Lanberis:- 10.6 milltir (17.1km)

A - Bangor i Dregarth

Gadewch yr Eglwys Gadeiriol a pharhau ar hyd y Stryd Fawr nes byddwch yn dod o hyd i lwybr sy'n mynd i ffwrdd i'r chwith yn syth ar ôl capel a chyn i chi gyrraedd y siop Lidl. Mae'r llwybr yma'n mynd dros Fynydd Bangor i gyrraedd lôn lle'r ydych yn mynd yn syth ymlaen ac yn ei dilyn o gwmpas i'r chwith. Cadwch i'r dde wrth y gyffordd nesaf ac yna trowch i'r chwith eto i gerdded i lawr yn serth i ryd lle byddwch yn ymuno â'r hen reilffordd chwarel. Trowch i'r dde yma a dilyn y trac prydferth yma tuag at Dregarth (3.5k) gan fynd dros bont newydd ei hadeiladu dros yr A 4244.

Ar ôl pasio o dan y bont ffordd nesaf, rydych yn dod at un arall llai dros y llwybr beiciau.

I barhau i Dregarth a Bethesda, arhoswch ar y llwybr beiciau a dilynwch hwn i'r dref lle mae llety, caffis a siopau.

B - Tregarth i Ddeiniolen

Cerddwch i fyny'r llwybr ar ochr chwith y bont yma i fynd reit drosti. Dilynwch y llwybr yma at grŵp o adeiladau (hen drefgordd Pandy). Wrth yr adeiladau, trowch i'r dde ar hyd trac sy'n troi'n llwybr troed yn gyflym iawn ochr yn ochr â chefnen isel. Pan ddewch at drac arall, croeswch drosto i fynd drwy giât cerddwyr. Pan gyrhaeddwch y Coed Cadw ewch i'r chwith drwy'r giât. Dilynwch y llwybr troed yma, gan fynd tua'r dde, at y lôn.

Trowch i'r dde ar hyd y lôn. Ar y gyffordd groesgam, gwyrwch i'r chwith i ddilyn y lôn fetlin ac yn union cyn i chi gyrraedd dreif gyda giât arno, trowch i'r chwith i mewn i'r goedwig. Dilynwch y llwybr yma i fyny drwy'r coed at wal lle byddwch yn troi i'r dde i ddilyn y wal ar eich ochr chwith. Wrth y giât mochyn, trowch i'r chwith drwy'r bwlch yn y wal a pharhau drwy'r coed nes dewch i giât mochyn mewn wal. Ewch drwyddi a, gyda'r wal ar eich ochr dde, dilynwch y llwybr o amgylch ochr Moel-y-Ci at giât arall sy'n arwain allan i drac. Trowch i'r chwith ar hyd hwn i gyrraedd top yr allt yn Nhyllidiart. Yma mae'r lôn fetlin yn gostwng i lawr i'r dde. Yna cymerwch yr ail lwybr ar y chwith drwy giât. Mae'r llwybr/lôn yma'n pasio drwy ddwy fferm yng Nghae'r Gof. Ewch yn eich blaen a thrwy dri wal. Ar ôl yr olaf, ewch i fyny'r allt i fynd drwy'r wal ac i'r Comin.

Cerddwch gyda'r wal ar eich ochr dde at giât i adael y Comin. Ewch yn syth ar draws y cae ac i lawr ac ar draws y nant. Parhewch i fyny'r allt nes bydd y llwybr troed yn troi'n dynn i'r chwith. Mae hwn yn arwain at ffermdy adfeiliedig, Maes Meddygion. Pasiwch hwn ar ei ochr dde i gyrraedd tir agored eto. Parhewch dros ochr y bryn ac i lawr y ffordd wrth Ffridd Uchaf. Trowch i'r dde a chymryd yr ail lwybr troed ar y chwith a dilyn y llwybr yma i lawr i'r brif ffordd a throi i'r chwith i mewn i'r Stryd Fawr.

C - Deiniolen i Lanberis

Ar gyffordd y ffordd trowch i'r dde i lawr New Street. Ewch heibio i'r siop ar y gyffordd ffordd nesaf. Yma trowch i'r chwith i mewn i Dai Caradog gyda wal garreg yn gwahanu'r ffordd oddi wrth y tai gwarchod ar eich ochr dde. Cerddwch ymlaen at y pen a, lle mae'r ffordd yn troi i'r chwith, cymerwch y llwybr troed drwy'r giât mochyn ar eich ochr dde.

Ewch drwy hon a pharhau heibio'r tai i groesi nant gyda'i dwy bont droed at lôn. Trowch i'r chwith ac, ar ôl ychydig fetrau, cymerwch y llwybr troed nesaf ar eich ochr dde. Ewch i'r dde lle mae fforch yn y llwybr a dilynwch hwn i dop yr allt a throi i'r chwith ar hyd y ffordd fynediad at ffordd arall a throi i'r dde. Dilynwch y ffordd yma i'r tai ym Maes Eilian a chyn yr arhosfan fysiau cymerwch y llwybr ar y dde.

Pan fyddwch yn cyrraedd y lôn nesaf, croeswch hi i lôn arall. Cymerwch y llwybr troed i lawr ffordd fynediad ar eich ochr dde. Mae hon yn mynd i mewn i goed Parc Gwledig Padarn ac mae'r llwybr yn hawdd ei ddilyn i lawr drwy'r coed. Pan fyddwch yn gadael y goedwig, trowch i'r chwith ar hyd y ffordd i gwrdd â'r ffordd sy'n dod o'r Amgueddfa Lechi. Croeswch y ffordd yma i fynd dros bont droed a dilynwch y llwybr yma, gyda'r rheilffordd ar eich ochr chwith, i'r brif ffordd. Trowch i'r dde, yna croeswch y ffordd a throi i'r dde i mewn i Stryd Fawr Llanberis.